*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/12/2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r Amcanion Gwella a Llesiant Drafft 2019/20** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2018, a gynhaliwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2019/20; a chynnig amcanion gwella a llesiant drafft ar gyfer 2019/20 er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau iddynt.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) gyhoeddi amcanion gwella a llesiant a bod wedi cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses o ddatblygu'r amcanion hynny.

3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2018, ac mae'n cynnig cadw amcanion gwella a llesiant cyfredol yr Awdurdod ymlaen i 2019/20.

**ARGYMHELLION**

4 Bod yr Aelodau:

(i) yn nodi'r ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2018; a

(ii) yn cymeradwyo datblygu Cynllun Gwella a Llesiant drafft ar gyfer 2019/20, yn seiliedig ar barhau ag amcanion gwella a llesiant cyfredol yr Awdurdod, sef:

- cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os bydd y tanau hynny yn digwydd; a
- hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

**CEFNDIR**

5 Rhaid i ATAau yng Nghymru gyhoeddi amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O ran prosesau cynllunio'r Awdurdod, mae'r rhain yn cael eu trin fel petaent yr n fath sef bod yr amcanion gwella tymor byr yn gallu bod yn gamau tuag at gyflawni'r amcanion llesiant tymor hir.

6 Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod ymdrechu i wella ei wasanaethau yn y tymor byr a hefyd ystyried llesiant cenedlaethau o bobl yn yr ardal yn y dyfodol. Rhaid iddo ddatblygu amcanion llesiant iddo'i hun, a'r rheini'n cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

7 Mae'r Awdurdod wedi gosod dau amcan gwella a llesiant tymor hir yn 2017 ac mae wedi cadw'r rheini ar gyfer 2018/19. Dyma'r ddau amcan:

- cefnogi pobl i atal tanau damweiniau mewn cartrefi ac i fod yn ddiogel os oes tanau o'r fath yn digwydd; a
- hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

8 Fel rhan o'r broses gynllunio, mae disgwyl i'r Awdurdod gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar yr amcanion y mae'n eu hystyried, ac i roi ystyriaeth i'r ymateb wrth gwblhau ei gynlluniau yn derfynol.

9 Wrth ddatblygu ei amcanion, mae'r Awdurdod ers sawl blwyddyn wedi cynnal ymgynghoriadau pryd bydd y cyhoedd a phobl eraill sydd â diddordeb yn cael eu hannog i roi eu barn ar agweddau ar wasanaethau tân ac achub yn yr ardal. Mae ambell flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi holi am gynigion penodol y mae eisoes wedi'u llunio, ac yn y blynyddoedd eraill mae wedi gwahodd barn fwy cyffredinol am ddatblygu gwasanaethau tân ac achub ar gyfer y dyfodol.

10 Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd Gweithgor Cynllunio'r Aelodau yn 2018, penderfynodd yr ATA ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ariannu gwasanaethau tân ac achub yn 2019/20.

11 Rhaid i'r Awdurdod gynnal proses flynyddol i osod cyllideb sy'n ddigon i dalu'r costau rhedeg a amcangyfrifir yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r broses hon o osod cyllideb fantoledig ar gyfer 2019/20 wedi bod yn anghyffredin o anodd oherwydd yr amgylchedd ariannol heriol, ambell gynnydd na ellir ei osgoi yn y costau yn 2019/20, ac effaith penderfyniadau blaenorol ynglŷn â defnyddio cronfeydd ariannol yr Awdurdod i dalu ei gostau rhedeg.

12 Ar ôl mynd ati'n ofalus i ystyried y dewisiadau ar gyfer sicrhau cyllideb fantoledig yn y flwyddyn 2019/20, dywedodd yr Awdurdod nad oedd yn ystyried mynd ar ôl arbedion mawr oherwydd roedd o'r farn y byddai lefel y risg yn rhy uchel ar hyn o bryd. Nid oedd wedi diystyru gwneud arbedion, ond ni fyddai maint yr arbedion hynny yn 2019/20 yn golygu, er enghraifft, mynd mor bell â chau gorsafoedd tân neu ddiswyddo diffoddwyr tân.

13 Ar ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus, cyfrifwyd bod y bwlch rhwng y costau roedd yr Awdurdod yn eu hamcangyfrif yn 2019/20 a lefel y cyfraniadau ariannol a wnaed gan y cynghorau sir yn 2018/19 bron yn £1.9 miliwn.

14 Mae'r asesiadau cynllunio cychwynnol ar y gofynion cyllidebol ar gyfer 2019/20 wedi parhau i gael eu hadolygu, ac mae asesiad diwygiedig yn destun adroddiad arall gan y Trysorydd (eitem 9 ar yr agenda).

**GWYBODAETH**

Ymgynghoriad Cyhoeddus 2018

15 Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2018, ac roedd yn cynnwys amrywiaeth o ddeunyddiau ymgysylltu, gan gynnwys:

- dogfen 36 tudalen yn darparu gwybodaeth ac esboniad cynhwysfawr;
- holiadur ar-lein, gyda'r dewis o gyflwyno ymatebion ysgrifenedig; a
- fideo dwyieithog yn tynnu sylw at waith y gwasanaeth tân ac achub ac yn hyrwyddo'r ymgynghoriad cyhoeddus.

16 Mae'r dulliau cyfathrebu'n cynnwys:

- datganiad i'r wasg gyda dolen at ddeunyddiau'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ynglŷn â chymryd rhan;
- rhoi llythyrau gyda chopi o'r ddogfen ymgynghorol i'r holl randdeiliaid a oedd wedi cofrestru i gael gohebiaeth o'r fath;
- negeseuon ategol ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio pobl at yr ymgynghoriad, gan gynnal yr ymwybyddiaeth ohono a thynnu sylw at y dyddiad cau;
- tudalen lanio bwrpasol ar wefan yr Awdurdod fel ei bod yn haws i bobl ddod o hyd i'r holl wybodaeth berthnasol yn un lle; a
- erthyglau a nodiadau atgoffa mewn cylchlythyrau i'r staff, i'w hannog i ymateb.

17 Cyfarfu'r swyddogion â Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwr Cyllid y cynghorau sir yng Ngogledd Cymru i drafod ac esbonio sefyllfa'r Awdurdod; ac fe aeth Cadeirydd a/neu Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a'r Swyddogion i gyfarfodydd y chwe chyngor sir i roi cyflwyniad ac i ateb cwestiynau gan y cynghorwyr.

18 Roedd yr holiadur ar-lein yn cyflwyno tri chwestiwn, sef:

- a oedd pobl yn meddwl ei bod yn rhesymol i'r cynghorau sir gyfrannu'r £1.9 miliwn ychwanegol, i gyd neu yn rhannol, sydd ei angen i osod cyllideb fantoledig yn 2019/20;
- beth oedd pobl yn ei feddwl o'r posibilrwydd y gallai hyn ychwanegu £6 neu £7 y flwyddyn at fil treth gyngor cyfartalog Band D; a
- sut gallai'r Awdurdod leihau ei gostau rhedeg yn y dyfodol.

19 O'r 193 o holiaduron a lenwyd drwy'r hybiau ar-lein:

- roedd 61% o'r ymatebwyr yn meddwl ei bod yn rhesymol gofyn i'r cynghorau sir dalu'r £1.9 miliwn yn ychwanegol a byddai'n well iddynt weld y swm yn cael ei gasglu gan y cynghorau sir na gweld gwasanaethau tân ac achub lleol yn cael eu gostwng.

  roedd 24% o'r ymatebwyr yn cytuno ei bod yn rhesymol gofyn i'r cynghorau sir am yr arian ychwanegol, ond roeddent yn meddwl y dylai'r Awdurdod geisio gostwng ei gostau rhedeg hefyd.

  nid oedd 15% yn meddwl y dylai'r cynghorau sir dalu unrhyw beth yn agos i £1.9 miliwn yn ychwanegol hyd yn oed os yw hynny'n golygu colli rhai gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

- roedd 45% o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai ychwanegu £6 neu £7 at fil treth gyngor cyfartalog Band D y flwyddyn nesaf yn golygu gwerth ardderchog am arian ac yn werth ei dalu.

  roedd 32% o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai £6 neu £7 yn dderbyniol, ond dim mwy na hynny.

  roedd 9% o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai £6 neu £7 yn ychwanegol fymryn yn ormod i'w ofyn.

  roedd 14% o'r ymatebwyr yn ystyried y byddai £6 neu £7 yn llawer gormod i'w ofyn.

- nid oedd 24% o'r ymatebwyr yn meddwl y dylid disgwyl i'r Awdurdod leihau ei gostau rhedeg.

  roedd 61% o'r ymatebwyr yn meddwl y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, ond dim ond i'r graddau na fyddai hynny'n gostwng lefel argaeledd neu ansawdd gwasanaethau rheng flaen.

roedd 13% yn meddwl y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, ac yn derbyn y gallai rhai gwasanaethau rheng flaen gael eu lleihau ychydig.

roedd 3% yn meddwl y dylai gwasanaethau tân ac achub gostio cyn lleied â phosibl, hyd yn oed os yw hynny'n golygu cau gorsafoedd tân a diswyddo diffoddwyr tân.

20 Daeth un ar ddeg o atebion ysgrifenedig i law hefyd, a'r rheini gan ddinasyddion preifat, cynghorau sir, un cyngor tref ac Undeb yr FBU.

- Roedd un ymatebwr yn canmol ymroddiad y diffoddwyr tân ar alw yn eu hardal; roedd un yn dweud y byddai'n hapus i wario £6 neu £7 yn ychwanegol ar ei dreth gyngor i gadw lefel y gofal tân; roedd un yn awgrymu ehangu rôl y gwasanaeth tân ac achub; un yn awgrymu mesurau a fabwysiadwyd gan gynghorau sir i gynhyrchu incwm/arbed costau ac y gallai'r ATA fod eisiau eu hystyried; ac roedd un yn pwysleisio'r sicrwydd a ddaw gan wasanaeth tân ac achub sydd ar gael drwy'r amser.
- Roedd Undeb yr FBU yn cefnogi cynnydd yn y cyfraniadau, ac er eu bod yn cydnabod y dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei gostau, roeddent yn meddwl na ddylai hynny fynd mor bell â lleihau lefel yr argaeledd neu ansawdd gwasanaethau rheng flaen.
- O'r ymatebion gan y cynghorau sir, roedd un yn pwysleisio bod angen i'r Awdurdod chwilio am ffyrdd o leihau ei gostau; ac roedd un arall – er ei fod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan yr Awdurdod ac yn derbyn y cynnig i gynyddu'r cyfraniadau – yn cyfeirio at yr amgylchedd ariannol eithriadol o heriol ac at benderfyniad gan yr Awdurdod yn y gorffennol i beidio â mynd ar ôl camau gweithredu a allai fod wedi arwain at arbedion sylweddol. Roedd y cyngor hwn yn siomedig ynghylch yr hyn roedd yn ei ystyried yn brinder cynigion i wneud arbedion, ac roedd yn gofyn i'r Awdurdod edrych eto ar y balans rhwng gwneud arbedion a chynyddu lefel y cyfraniadau gan y cynghorau sir.
- Roedd cyngor arall eisiau i'r Awdurdod barhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd ond nid oedd eisiau i'r gofal tân neu i wasanaethau ymatebol eraill gael eu lleihau i lefel anniogel, nac i wasanaethau ataliol hanfodol gael eu peryglu, ac roedd yn cyfeirio at y cyd-ddiddordeb – fel partneriaid – yn niogelwch y cyhoedd.
- Roedd un cyngor yn falch o gadarnhau bod y cynnydd yn y cyfraniad wedi cael ei ymgorffori yn ei broses o gynllunio'r gyllideb heb unrhyw sylwadau negyddol gan ei Aelodau.

- Roedd un cyngor yn cydymdeimlo â sefyllfa'r Awdurdod ac yn dweud ei fod yn ymddiried yn yr Awdurdod i ddefnyddio ei grebwyll wrth sicrhau balans rhwng effeithlonrwydd cyllidebol a pharhad ac ansawdd gwasanaethau, ac i ddod i'w benderfyniad gwybodus ei hun.

21 Bydd ymateb drafft o'r ymatebion a ddaeth i law yn cael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ym mis Chwefror 2019.

22 Ar ôl diwedd yr ymgynghoriad, cynhaliwyd gweithdy anffurfiol ar 16 Tachwedd 2018 er mwyn i'r Aelodau ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r gyllideb ar gyfer 2019/20.

<u>Yr amcanion gwella a llesiant ar gyfer 2019/20</u>

23 Ar sail yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a beth bynnag fydd penderfyniad yr Awdurdod am ei gyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2019/20, mae'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i barhau â'i ddau amcan llesiant tymor hir presennol.

24 Ond mae'r camau tymor byr tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ddibynnol ar benderfyniadau'n ymwneud â'r gyllideb a sicrhau adnoddau, a bydd angen eu drafftio'n briodol.

25 Felly, cynigir bod y Swyddogion yn darparu drafft cyntaf o Gynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 i'r Panel Gweithredol yn Chwefror 2019, a bod y cynllun hwnnw'n seiliedig ar amcanion tymor byr presennol yr Awdurdod ac yn ymgorffori set ategol o amcanion tymor byr. Yna, gellir gofyn am gymeradwyaeth derfynol o'r Cynllun yng nghyfarfod yr Awdurdod llawn ym mis Mawrth 2019.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Goblygiadau unionyrchol ar osod amcanion llesiant yr Awdurdod ar gyfer y tymor hir ac ar y camau tymor byr i'w cyflawni. |
| Cyllideb | Bydd cynlluniau manwl ar gyfer 2019/20 yn dibynnu ar lefel yr adnoddau ariannol sydd ar gael. |
| Cyfreithiol | Cefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth cynllunio gwelliannau a llesiant. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd effaith camau penodol yn cael eu hasesu ar yr adeg briodol wrth eu datblygu. |
| Risgiau | Lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio ac o fethu â chyllidebu a chynllunio'n briodol. |